# PAPURAU BUSNES

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MAWRTH, 12 MEDI 2000

## RHAN 2 – ADRAN H

**Dechreuodd y cyfarfod am 2pm**

**2.00pm**
**Datganiad gan y Llywydd**
Gwnaed datganiad gan y Llywydd ar y clociau newydd yn y cyfarfodydd llawn.

**2.00pm**
**Ethol Aelod i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
**Yn unol ag adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Janet Davies (Plaid Cymru) i'w Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn lle Brian Hancock (Plaid Cymru).**

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Cymeradwywyd y cynnig.**

**2.02pm**
**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd**
Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf.

**2.33pm**
**Cynnig Gweithdrefnol i gynnal Dadl Frys**
Cynigiodd Ieuan Wyn Jones gynnig gweithdrefnol yn gofyn am ddadl frys o dan Reol Sefydlog 6.9 i drafod yr argyfwng tanwydd.

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 32; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y cynnig**

**2.41pm**
**Pwynt o Drefn**
**1** Cododd William Graham bwynt o drefn ynghylch perthynas Aelodau'r Cynulliad â Staff y Cynulliad.

Cyfeiriodd y Llywydd at y Protocol ar y Berthynas rhwng Staff ac Aelodau ac awgrymodd y dylai unrhyw Aelod sydd â gofidiau am aelod o staff fynegi'r gofidiau hynny wrth y Llywydd yn y lle cyntaf a fydd yn ei dro yn hysbysu'r Ysgrifennydd Parhaol amdano. Ymgynghorir â'r Aelodau ar newid y protocol i adlewyrchu hyn.

**2** Cododd Nick Bourne bwynt o drefn ynghylch y baneri ar adeilad y Cynulliad. Cadarnhaodd y Llywydd ei fod yn cyfarfod gyda'r Llynges Fasnachol ynghylch gosod baneri ar adeilad newydd y Cynulliad.

**3** Cododd Janet Ryder bwynt o drefn ynghylch swyddogaethau'r Pwyllgorau Pwnc. Esboniodd y Llywydd yr edrychid eto ar eu swyddogaethau yn ystod yr adolygiad o weithdrefnau'r Cynulliad ac awgrymodd y dylid mynegi unrhyw ofidiau penodol yn y pwyllgor perthnasol.

**2.49pm**
**Datganiad gan Sue Essex, yr Ysgrifennydd dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a Chynllunio ar yr argyfwng tanwydd.**

**4.10pm**
**Pwynt o Drefn:**
1 Nick Bourne ynghylch sylwadau a wnaed gan Lyn Neagle.

Ym marn y Llywydd, roedd yr Aelod wedi mynegi beirniadaeth yn hytrach na gwneud cyhuddiad ac yr oedd felly mewn trefn.

2 Alun Cairns ynghylch sylwadau sy'n cael eu gwneud gan Aelodau ar eu heistedd.

Gan nad oedd sylwadau o'r fath yn cael eu cynnwys yn y cofnod, yn ôl y Llywydd ni ellid ystyried eu bod allan o drefn.

3 Jenny Randerson – ar ddatgan buddiannau.

Datganodd Peter Rogers fod ganddo fudd yn y mater fel ffermwr.

**4.17pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**4.19pm**
**Cynnig gweithdrefnol:**

Cynigiodd y Trefnydd gynnig gweithdrefnol o dan reol sefydlog 6.16 i ofyn i'r Cynulliad (i) ystyried y cynnig i sefydlu pwyllgor ymgynghorol ar benodi comisiynydd plant er i'r ddogfen ategol gael ei (hail) osod yn hwyr gan y bu'n rhaid ei chywiro; ac (ii) ystyried cynnig newydd a gafodd ei gyflwyno heddiw i ethol Aelodau ar y pwyllgor.

**Cymerwyd pleidlais ar y cynnig gweithdrefnol:**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53

**Cymeradwywyd y cynnig gweithdrefnol.**

**Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant**
1. **Sefydlu Pwyllgor**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn sefydlu pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 8.1 i gynghori'r Cynulliad ar benodi Comisiynydd Plant i Gymru. Enw'r pwyllgor fydd Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant. Bydd pump o Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o'r pwyllgor, un o'r Blaid Lafur, un o Blaid Cymru, un o'r Blaid Geidwadol ac un o blaid y Democratiaid Rhyddfrydol. Jane Hutt Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad fydd Cadeirydd y Pwyllgor.

Gosodwyd manylion cylch gorchwyl y Pwyllgor yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Medi. (Cafodd fersiwn gywir ei gosod ar 12 Medi.)

**Cymerwyd pleidlais ar y cynnig**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Cymeradwywyd y cynnig**

**2. Ethol Aelodau**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol o dan Reol Sefydlog 8.4 yn ethol Aelodau canlynol y Cynulliad ar y Pwyllgor Ymgynghorol Penodi Comisiynydd Plant:

Lorraine Barrett

Helen Mary Jones

David Melding

Kirsty Williams a

Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yn cadeirio'r Pwyllgor.

**Cymerwyd pleidlais ar y cynnig**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Dirprwyo Swyddogaethau**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Safonau Gofal 2000; Deddf Cynhalwyr a Phlant Anabl 2000; Deddf Adnoddau a Chyfrifon

y Llywodraeth 2000; Deddf Dysgu a Sgiliau 2000; Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Deddf Cyfathrebu Electronig 2000; i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad, ac eithrio’r rheini na ellir eu dirprwyo yn ôl y gyfraith.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Michael German (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig: "Ni fydd unrhyw ran o'r penderfyniad hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn, nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth adolygu effeithiolrwydd polisïau a datblygu polisïau newydd, yn unol â'r disgrifiad a geir yn rheol sefydlog 9.7(l), wrth gyfrannu at ddatblygiad polisïau'r Cynulliad."

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O Blaid 40; Ymatal 15; Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Cymeradwywyd Gwelliant 1.**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 55; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**4.33pm**
**Dadl ar yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

- yn croesawu’r dyraniadau ychwanegol sydd bellach ar gael i Gymru drwy Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant;
- yn cymeradwyo’r egwyddor bod y cronfeydd yn cael eu dyrannu yn ôl y blaenoriaethau a roddir yn www.gwellcymru.com, sef: cyfleoedd gwell i ddysgu; economi gryfach, well; iechyd a lles gwell; ansawdd bywyd gwell; a llywodraeth symlach, well;
- yn cymeradwyo’r egwyddor bod y dyraniadau’n hybu’r tair prif thema yn www.gwellcymru.com – datblygu cynaliadwy, mynd i’r afael ag anfantais gymdeithasol a chyfle cyfartal;
- yn ystyried barn ei bwyllgorau a’i aelodau wrth wneud dyraniadau ariannol; ac
- yn galw ar Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad i gyflwyno cynigion i gwrdd â’r amcanion hyn yn y gyllideb ddrafft fis Hydref.

**Dewiswyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**
Ychwaneger ar ddiwedd pwynt bwled 1

Ond mae’n destun pryder iddo nad yw’r dyraniad yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at yr arian cyfatebol y bydd ei angen er mwyn galluogi Cymru i fanteisio’n llawn ar botensial y rhaglenni Ewropeaidd

**Gwelliant 3 - Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**
Ychwaneger pwynt bwled 2 newydd

Yn cymeradwyo'r egwyddor o ddyrannu arian ar ben bloc Barnett ar gyfer y Rhaglenni Ewropeaidd, ond mae'n gresynu nad yw'r swm a ddyrannwyd ar hyn o bryd yn ddigon i alluogi Cymru i wneud defnydd llawn o Gronfeydd Strwythurol Ewrop a Mentrau Cymunedol;

**Gwelliant 4 - Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**
Newidier yr ail bwynt bwled presennol

Dileer popeth ar ôl "yn ôl" ac ychwaneger

"blaenoriaethau a fydd yn fodd i gyrraedd y nod o sicrhau ffyniant trwy Gymru benbaladr ac a fydd yn mynd i'r afael ag anghyfartaleddau o ran iechyd, addysg, cyflogaeth a meysydd polisi eraill"

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru);**
Ychwaneger ar ddiwedd pwynt bwled tri;

'yn arbennig, drwy,

- wneud yn siwr bod digon o arian cyfatebol ar gael er mwyn sicrhau bod modd manteisio'n llawn ar y Rhaglenni Strwythurol Ewropeaidd presennol;
- buddsoddi ar fyrder er mwyn mynd i'r afael â'r llwyth mawr o waith atgyweirio adeiladau ysgolion sydd wedi cronni ac er mwyn lleihau maint dosbarthiadau;
- sicrhau bod y gallu gan yr NHS yn y tymor hir i ymgymryd â mwy o waith clinigol, a lleihau amserau aros;
- sicrhau mwy o ymrwymiad gan y Cynulliad i'r sector-amaeth-amgylcheddol;
- sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu diogelu a bod unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor mor isel â phosibl trwy roi mwy o arian i Lywodraeth Leol.'

**Gwelliant 6 - Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**
Dileer pwynt bwled 3 ac ychwaneger

yn cymeradwyo dyrannu yn unol â'i ddyletswydd i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy gan dalu sylw arbennig i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a hyrwyddo cyfle cyfartal.

**Gwelliant 7 - Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**
Yn y pwynt bwled olaf, ar ôl "yn y gyllideb ddrafft ym mis Hydref" ychwaneger "gan sicrhau bod y Grant Cynnal Refeniw yn ddigon i sicrhau na fydd unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor yn uwch na chwyddiant."

**5.28pm**
Cynigiodd Andrew Davies gynnig gweithdrefnol o dan Reol Sefydlog 6.18 i ohirio'r drafodaeth.

**Cymerwyd pleidlais ar y cynnig gweithdrefnol:**
O Blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52

**Cymeradwywyd y cynnig gweithdrefnol.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.29pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 9.05am ddydd Iau, 14 Medi 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

# DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 11 MEDI 2000

Cyngor Celfyddydau Cymru: Datganiadau Ariannol - Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol
Cyngor Celfyddydau Cymru: Datganiadau Ariannol Cryno- Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 7 MEDI 2000

Adroddiad ar Grant Arbennig i Geiswyr Nodded (Oedolion, Teuluoedd Ceiswyr Nodded a Phlant ar eu pennau eu hunain sy'n Ceisio Nodded)
Rheoliadau Adnabod Defaid a Geifr (Cymru) 2000
The Care Standards Act 2000 (Commencement No.1) Order 2000 – Nid oes copi Cymraeg
The Seeds (National Lists of Varieties) Regulations 2000 – Nid oes copi Cymraeg
Analysis of Responses to the Assembly's Consultation Document: A Sustainable Wales - Learning to live Differently – Nid oes copi Cymraeg

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 5 MEDI 2000

Terms of Reference for the Children’s Commissioner Appointment Advisory Committee – Nid oes copi Cymraeg

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 31 AWST 2000

Cyngor Chwaraeon Cymru - Cronfa Ddosbarthu'r Loteri (Sportlot)

Adroddiad a Chyfrifon blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 23 AWST 2000

Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cod Gweithredu ar Gwynion - Argraffiad Cyntaf (2000)

Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 14 AWST 2000

Cabinet Response to the Audit Committee's Report on NHS (Wales) Summarised Accounts 1998-99 – Nid oes copi Cymraeg

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 31 GORFFENNAF 2000

Cyngor Celfyddydau Cymru: Datganiad Ariannol - Cyfrif Dosbarthu'r Loteri am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2000

Heritage Lottery Fund, National Heritage Memorial Fund Annual Report & Accounts 1999-2000 – Nid oes copïau Cymraeg nag electronig

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 19 GORFFENNAF 2000

Corfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd - Adroddiad Blynyddol 1999-2000